Cyrhaeddiad Cenedlaethol – Ergyd Ranbarthol – Budd Lleol

Cynulleidfaoedd Cymru
Adroddiad Blynyddol a Gwerthusiad 2009-2010

Mae Cynulleidfaoedd Cymru yn rhoi hwb i'r nifer sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn nigwyddiadau celfyddydol a'r mudiad yw prif ffynhonnell arbenigedd meithrin cynulleidfaoedd a marchnata yng Nghymru.

Yn 2009-2010 cefnogwyd 176 o sefydliadau celfyddydol ac awdurdodau lleol gan Gynulleidfaoedd Cymru o fewn yr ardal sy'n darparu ein cyllid a Chymru ben baladr. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 11% dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhelyw'r sefydliadau hyn yn defnyddio mwy nac un o'n gwasanaethau gan gynnwys cefnogaeth dactegol (gan gynnwys gwefan Golwg ar Gymru, dosbarthu deunydd wedi ei argraffu, a'n cronfa-ddata bostio), gwasanaethau er mwyn meithrin unigolion (yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth a chyngor am ddim) ynteu wasanaethau er mwyn datblygu'r sefydliad (gan gynnwys ymchwil, cynghori, a dadansoddi gwybodaeth o'r swyddfa docynnau).

Yn ystod 2009-2010, bu i Gynulleidfaoedd Cymru:

- Ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i **176 o sefydliadau celfyddydol** (cynnydd o 11% ers 2007-2008)
- Ddarparu cyngor manwl rhad ac am ddim i **55 o sefydliadau celfyddydol** (cynnydd o 22% ers 2008-2009)
- Ddarparu'r rhaglen ddadansoddi gwybodaeth swyddfa docynnau, The Knowledge, mewn **27 lleoliad** ac wedi cynhyrchu 47 o adroddiadau gwahanol ar draws Cymru
- Gwblhau'n llwyddiannus **19** o brosiectau ymchwil ac ymgynghori ar draws Cymru
- Gynnal 8 o ddigwyddiadau hyfforddi, rhwydweithio a datblygu ar gyfer **121 cyfranogwr**
- Gynhyrchu dros **65,000** o enwau a chyfeiriadau o'n cronfa-ddata bostio gyhoeddus
- Ddosbarthu dros **1.2miliwn** o eitemau wedi eu hargraffu ar draws de Cymru ar gyfer 54 o sefydliadau gwahanol
- Gefnogi **527 o sefydliadau** a oedd wedi eu cofrestru i ddefnyddio gwefan What's On Wales / Golwg Ar Gymru (cynnydd o 12% ers 2008-2009).
- Rheoli gwefan What's On Wales / Golwg Ar Gymru a ddenodd **106,646 o ymwelwyr** a fu'n ymweld 112,091 o weithiau
- Ddatblygu newyddion, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer gwefan Cynulleidfaoedd Cymru a ddenodd **6,832 o ymwelwyr a fu'n ymweld** 14,723 visits o weithiau

Ein cenhadaeth:

- I ddarparu cefnogaeth marchnata strategol a thactegol, gwasanaethau ac arbenigedd er mwyn galluogi mudiadau celfyddydol i adeiladu perthynas fuddiol a chynulleidfaoedd y presennol a'r dyfodol.

Ein hamcanion:

- Adeiladu maint cynulleidfaoedd trwy ddarparu cefnogaeth dactegol a strategol mewn partneriaeth â mudiadau celfyddydol ac asiantaethau eraill
- I fod yn brif ffynhonnell arbenigedd a gwybodaeth meithrin cynulleidfaoedd yng Nghymru
- I arwain ar symud marchnata'r celfyddydau ymlaen yng Nghymru
- I bledio achos datblygu cynulleidfaoedd o fewn diwydiant y celfyddydau a chyd-destun ehangach yng Nghymru
- I gefnogi perfformiad busnes mudiadau celfyddydol yng Nghymru

Cynulleidfaoedd Cymru

Cyrhaeddiad Cenedlaethol – Ergyd Ranbarthol – Budd Lleol

Adroddiad Blynyddol a Gwerthusiad 2009-2010

Gwasanaethau Meithrin Cynulleidfa a Marchnata'r Celfyddydau Cynulleidfaoedd Cymru

Datblygu a Dysgu'r Sector

- Meithrin medrau / rhaglenni hyfforddi
- CC: Cyswllt (rhaglen rwydweithio)
- Fforymau Datblygu Marchnata
- Adnoddau hyfforddi Dysgu ar alw (gwefan CC)
- Adnoddau Addysg a Datblygu (gwefan CC)

Gwasanaethau Ymgynghori a Chefnogi

- Ymchwil ansoddol a meintiol
- Ymgynghoriaeth ar reoli, marchnata a meithrin y gynulleidfa
- The Knowledge (rhaglen ddadansoddi swyddfa docynnau'r theatr)
- Cyngor a chefnogaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Cyhoedd

- Gwefan What's On Wales (whatsonwales.co.uk)
- E-gylchlythyr What's On Wales
- Gwefan Golwg Ar Gymru (golwgargymru.co.uk)
- E-gylchlythyr Golwg Ar Gymru
- Dosbarthu deunydd wedi ei argraffu
- Bas-data Postio Cyhoeddus

Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Sector

- Gwefan Audiences Wales (audienceswales.co.uk)
- 'Connect' Cynulleidfaoedd Cymru e-gylchlythyr

"Disgrifiodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri y cynllun datblygu a gynhyrchwyd gennych fel un o'r gorau yr oeddent wedi eu gweld" Cleient Ymchwil

"Mae adroddiad The Knowledge wedi ein galluogi i ddatblygu strategaethau marchnata newydd er mwyn gwireddu cynulleidfaoedd newydd" Tanysgrifiwr i'r Knowledge

"Mae defnyddio eich gwasanaeth dosbarthu deunydd wedi ei argraffu wedi gosod ein cwmni mewn cwmni da ac addas" Cleient Dosbarthu deunydd wedi ei argraffu

"Mae hwn yn ddarn o waith trylwyr a defnyddiol … diolch am eich holl waith caled ar y prosiect hwn" Cyngor Celfyddydau Cymru ar Ddynodi'r Potensial

"Diolch unwaith eto i chi am eich cyngor strategol yr holl fisoedd hynny'n ôl, am y gwaith caled a gyflawnwyd ers hynny, ac am eich holl gefnogaeth" Cleient Ymchwil

"Perthynas dda, awyrgylch gyfeillgar anffurfiol a chyfle ardderchog i gyfarfod â phobl o sefydliadau eraill" Cyfranogwr mewn hyfforddiant

Am gopi llawn o **Adroddiad Blynyddol a Gwerthusiad 2009-2010 Cynulleidfaoedd Cymru** cysylltwch os gwelwch yn dda â Nick Beasley, Y Prif Weithredwr, Cynulleidfaoedd Cymru ar (029) 2037 3736 ynteu trwy anfon e-bost at nick@audienceswales.co.uk.

Cyllidir Cynulleidfaoedd Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Awdurdodau Lleol canlynol ar draws de a gorllewin Cymru: Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Caerffili, Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sir Gaerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Nedd a Phort Talbot, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sir Benfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Dinas a Sir Abertawe, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae Cynulleidfaoedd Cymru yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant.
Cofrestrwyd yng Nghymru, rhif 2596844. Elusen gofrestredig rhif. 1006810